Ymchwiliad i lobïo

YMATEB GAN CGGC

1. Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) yw'r mudiad aelodaeth cenedlaethol ar gyfer y sector gwirfoddol yng Nghymru. Ein diben yw galluogi mudiadau gwirfoddol i wneud mwy o wahaniaeth gyda'i gilydd.

BETH MAE'R TERM 'LOBÏO' YN EI OLYGU I CHI?

2. Yn y gorffennol, mae CGGC wedi defnyddio'r term 'lobïo' i olygu 'unrhyw gysylltiad â'r rheini mewn awdurdod sy'n cael eu gwneud er mwyn dylanwadu ar eu gweithrediadau mewn rhyw fodd'. Byddai hyn yn cynnwys cyflwyno papurau briffio, llythyrau ac ymatebion i ymgynghoriadau, yn ogystal â chwrdd ag Aelodau o'r Senedd a rhoi tystiolaeth ar lafar mewn Pwyllgorau. Mae gallu gwneud yr holl bethau hyn yn fuddiol tu hwnt i'r sector gwirfoddol, a gall gael effaith gadarnhaol ar gymunedau ar hyd a lled Cymru.

3. Fodd bynnag, caiff lobïo ei ystyried yn weithgaredd amheus weithiau oherwydd enw gwael rhai lobïwyr proffesiynol – pobl sy'n cael eu talu, yn aml gan fusnesau, i ddylanwadu ar bolisi neu ddeddfwriaeth ar ran y sawl sydd wedi'u talu nhw. Gall fod ardal lwyd rhwng mudiadau sydd wedi cyflogi eu staff eu hunain fel lobïwyr a chyflogeion o'r sector gwirfoddol a all fod, ymhlith dyletswyddau eraill, yn ceisio dylanwadu ar wleidyddion.

4. Gallai diffiniad safonol o lobïo (a ddatblygir ar ôl ymgysylltu â'r sector gwirfoddol) y gall y cyhoedd ei ddeall helpu i newid y safbwynt negyddol o ran beth yw lobïo a beth mae'n ei wneud. Pe bai diffiniad o'r fath yn cael ei gyflwyno, byddai'n rhaid iddo wahaniaethu'n glir rhwng eiriolaeth wleidyddol gan fudiadau'r sector gwirfoddol sy'n ceisio cyflawni eu hamcanion elusennol, a'r math o lobïo sy'n gysylltiedig â busnesau. Mae gan lawer o aelodau CGGC staff lle mae eu rolau'n cynnwys ceisio dylanwadu ar bolisi a deddfwriaeth. Nid ydym yn credu y byddent yn ystyried eu hunain yn lobïwyr. Mae gwaith o'r fath yn dueddol o fod yn rhan o amrediad ehangach o ystyriaethau. Fodd bynnag, bydd dylanwadu ar newid cadarnhaol er mwyn cefnogi eu gweledigaeth a'u cenhadaeth yn rhan bwysig o weithgareddau llawer o'n haelodau.

PA BRYDERON, OS O GWBL, SYDD GENNYCH YNGLŶN Â LOBÏO AELODAU O'R SENEDD

5. Mae'r ddogfen ymgynghori a'r dudalen we gysylltiedig yn cyfeirio at y posibilrwydd o gyflwyno cofrestr lobïo yn eu paragraffau agoriadol, ond nid oes unrhyw un o'r cwestiynau o fewn yr ymchwiliad hwn yn gofyn yn benodol, 'A ddylid cyflwyno

cofrestr o lobïwyr yng Nghymru?' Mae'r absenoldeb hwn yn pardduo'r broses ymgysylltu ynghylch yr ymgynghoriad hwn ac yn gadael yr ymchwiliad mewn perygl o beidio â chael yr wybodaeth y dylai.

6. Er y gall cofrestr lobïo hybu tryloywder ac atebolrwydd Llywodraeth Cymru, mae pryderon wedi'u mynegi gan y sector gwirfoddol, fel y mynegwyd yn flaenorol, ynghylch cymesuroldeb cofrestr o'r fath. Er enghraifft, a fyddai banc bwyd cymunedol yn gorfod cofrestru, ac yn gorfod adrodd pob tro y byddai ei Aelod o'r Senedd lleol yn ymweld â nhw ac yn trafod materion o ran tlodi bwyd gyda nhw? Byddai hyn yn teimlo'n or-fiwrocrataidd, ac yn cymryd maint anghymesur o amser. Yn yr un modd, ni ellir disgwyl i ddinesydd neu eiriolwr sy'n siarad neu'n ysgrifennu at ei AS i wthio am newid mewn meysydd sydd o bwys iddo i allu deall rheoliadau ffurfiol ynghylch lobïo. Byddai unrhyw awgrym o hyn yn ei ddigalonni rhag ymhél â democratiaeth yn gyfan gwbl.

7. Byddai angen i unrhyw gofrestr neu reoliadau lobïo a ddatblygir ystyried y lliaws o ffyrdd amrywiol y gall y sector gwirfoddol ddewis dylanwadu ar brosesau penderfynu yng Nghymru. Byddai angen iddo sicrhau y gellid parhau i gyflawni'r tasgau hyn a chydnabod y byddai rhai aelodau staff yn cael eu talu i ymgymryd â gweithgareddau o'r fath.

8. Yn yr un modd, byddai angen i unrhyw gofrestr neu reoliadau lobïo fynd law yn llaw ag ymgyrch codi ymwybyddiaeth, a byddai angen i'r ymgyrch hwn fod yn ymwybodol o grwpiau neu gyrff llai na allai, o bosibl, ystyried eu hunain yn lobïwyr ac felly a allai fod yn mynd yn groes i'r gofrestr neu'r rheoliadau.

9. Mae Cynllun y Trydydd Sector yn ymwneud â chydberthnasau ac ymgysylltiad rhwng Llywodraeth Cymru a'r sector gwirfoddol. Yn ôl pob tebyg, byddai angen diweddaru'r Cynllun i gynnwys unrhyw ddiffiniadau newydd o lobïo ac unrhyw ganllawiau neu reoliadau a oedd yn ymwneud â lobïo.

BETH YW EICH DEALLTWRIAETH O RÔL GRWPIAU TRAWSBLEIDIOL MEWN PERTHYNAS Â LOBÏO YN Y SENEDD, AC OES GENNYCH SYLWADAU NEU BRYDERON?

10. Mae mudiadau'r sector wedi dweud bod grwpiau trawsbleidiol yn ddefnyddiol iawn o ran amlygu materion penodol a rhannu gwybodaeth ar draws materion sy'n ymestyn ar draws ffiniau gwleidyddol, gan alluogi gwaith cydweithredol er lles cymdeithas. Os mai lobïo yw hyn, yna mae'n fath tryloyw a chydweithredol iawn o lobïo a, chan fod y grwpiau hyn yn agored i unrhyw un fynychu, mae lle i gwestiynau heriol ac i graffu'n agos ar y pynciau dan sylw a'r penderfyniadau a wneir.

11. Fodd bynnag, mae rhai cynrychiolwyr o'r sector yn credu y gall sesiynau trawsbleidiol syrthio i batrymau o weithio'n ailadroddus ac eithrio lleisiau cymuned. Mae llawer o'r un lleisiau, yn aml o fudiadau mwy o faint, yn eistedd ar lawer o grwpiau trawsbleidiol, a fforymau tebyg eraill, a gall hyn ei gwneud hi'n anoddach i fudiadau llai o faint yn y gymuned deimlo eu bod yn cael eu cynrychioli. Byddai cyfranogiad wedi'i dargedu, fel mynd ati'n benodol i wahodd mudiadau llai â mewnwelediad uwch o'u cymunedau, yn helpu'r Senedd i gyrraedd y corneli cudd hynny o gymunedau Cymru a helpu i sicrhau mwy o gynhwysiant.

12. Rydym yn cefnogi galwad Cymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru i gynnwys manylion cyswllt ysgrifenyddiaeth bob grŵp ar wefan y Senedd er mwyn ei gwneud hi'n haws i fudiadau ofyn ynghylch ymuno â chyfarfodydd.

SUT YDYCH CHI'N MEDDWL Y GALLEM NI SICRHAU RHAGOR O DRYLOYWDER YNGHYLCH GWNEUD PENDERFYNIADAU YNG NGHYMRU?

13. Byddai'n helpu atebolrwydd a thryloywder pe bai'r cyfarfodydd y mae Ysgrifenyddion a Gweinidogion Cabinet yn eu cael â phobl neu fudiadau a all fod yn ceisio dylanwadu arnynt yn cael eu cyhoeddi'n rheolaidd ar-lein.

14. Nid yw Llywodraeth Cymru bob amser yn cyhoeddi adborth uniongyrchol nac yn rhoi dadansoddiad o ymatebion ymgynghoriadau, a fyddai'n galluogi pobl i gael mwy o ddealltwriaeth o'r penderfyniadau y mae'n ei gwneud o ganlyniad i'r ymgynghoriad hwnnw. Dylai hyn newid, er mwyn caniatáu i bobl ddeall y rhesymeg y tu ôl i'r penderfyniad.

15. Dylid ymgysylltu'n barhaus â'r sector gwirfoddol drwy gydol yr holl gamau o ddatblygu a chraffu ar bolisi, er mwyn sicrhau bod amrediad amrywiol o leisiau yn cael eu croesawu a'u hannog. Gofynnwn i'r Pwyllgor nodi'r Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru a ail-lansiwyd yn ddiweddar, fel y'u cymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru.

A YDYCH YN YSTYRIED EICH HUN YN LOBÏWR? SUT MAE LOBÏO'N CAEL EI REOLEIDDIO YN EICH SECTOR AR HYN O BRYD?

16. Nid yw'n debygol y byddai llawer o fudiadau gwirfoddol, os o gwbl, yn gweld eu hunain yn benodol fel lobïwyr. Byddai ceisio dylanwadu ar Aelodau o'r Senedd yn dasg a fyddai'n cael ei gwneud fel modd o wella bywydau defnyddwyr gwasanaethau a/neu o gyflawni amcanion elusennol mudiad.

17. Un o swyddogaethau CGGC, fel y nodwyd yng Nghynllun y Trydydd Sector, yw hwyluso'r sector i gael ei lais wedi'i glywed gan y Senedd. Gall hyn fod drwy ofyn am farn y sector i'w chynnwys mewn ymatebion i ymgynghoriadau fel yr un hwn, neu drwy hwyluso cyfarfodydd rhwng y sector a Gweinidog, Aelod o'r Senedd neu swyddog.

18. Un o'r negeseuon rydym yn ei chlywed yn aml gan ein haelodau yw eu bod eisiau i ddylanwadu ar newid cadarnhaol fod yn un o swyddogaethau sylfaenol CGGC fel mudiad. Mae dylanwadu yn rhan greiddiol o'n rôl. A yw'r gwaith dylanwadu hwn yn lobïo? Byddai hyn yn dibynnu'n fawr ar sut mae rhywun yn diffinio 'lobïo'. Nid oes unrhyw ddiffiniad penodol wedi'i gyflwyno gan y llywodraeth eto.

19. Caiff gweithgareddau dylanwadu'r sector eu rheoleiddio gan y Comisiwn Elusennau ar gyfer Cymru a Lloegr a chan Ddeddf Tryloywder Lobïo, Ymgyrchu gan Grwpiau Di-blaid a Gweinyddu Undebau Llafur 2014 Llywodraeth y DU, a adnabyddir fel y Ddeddf Lobïo. O fewn y Senedd, mae canllawiau anstatudol ar Lobïo, ac mae Rheol Sefydlog 22 yn llywodraethu'r gydberthynas sydd gan Aelodau o'r Senedd â lobïwyr

allanol.

20. Er bod y Ddeddf Lobïo wedi llesteirio gallu'r sector gwirfoddol i fynegi ei hun, nid ydym yn siŵr a yw wedi gwneud lobïo preifat fymryn yn fwy tryloyw.

21. Nododd un mudiad a ymatebodd eu bod wedi defnyddio'r term 'lobïo' yn eu datganiad cenhadaeth yn wreiddiol i olygu 'dylanwadu ar bolisïau ac arferion', ond cawsant gyfarwyddyd gan y Comisiwn Elusennau i'w dynnu ymaith.

A YDYCH WEDI CAEL UNRHYW BROBLEMAU GYDA'R DARPARIAETHAU YN Y COD A'R CANLLAWIAU AR LOBÏO A MYNEDIAD AT AELODAU O'R SENEDD?

22. Nid ydym wedi clywed am unrhyw broblemau â hyn. Fodd bynnag, nid oedd rhai ymatebwyr yn ymwybodol o'r canllawiau hyn. Dylai'r Senedd gynnal ymgyrch codi ymwybyddiaeth. Byddem yn fwy na bodlon trafod gweithio mewn partneriaeth gyda swyddogion ar hyn.

A OES UNRHYW FEYSYDD SY'N YMWNEUD Â LOBÏO YR YDYCH YN YSTYRIED NAD YDYNT YN CAEL EU RHEOLEIDDIO, SY'N RHOI ATEBOLRWYDD AC ENW DA LLYWODRAETHU YNG NGHYMRU MEWN PERYGL?

23. Nid oes gennym bryderon yn y maes hwn.

TRAFODAETH BELLACH

24. Mae CGGC yn fodlon cwrdd â'r Pwyllgor, Llywodraeth Cymru neu Aelodau o'r Senedd i drafod y materion a godwyd yn yr ymateb hwn ymhellach, yn enwedig o ran pwynt 22.

David Cook

Swyddog Polisi, CGGC

Mehefin 2022

dcook@wcva.cymru